# Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-02-08)

**Dyddiad: 24 Ionawr 2008**
**Amser: 9:00 – 12:30**
**Lleoliad: Ystafelloedd pwyllgora 1 a 2, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Plenarthlun
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth Pwyllgorau

Joanne Clinton, Clerc
Claire Morris, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Robin Shaw, Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru
Martin Stevenson, Prif Ddadansoddwr Polisi, Trafnidiaeth
Jane Davidson AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Claire Bennett, Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dwr
Julia Williams, Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dwr
Ron Loveland, Pennaeth Ynni Cymru
Teresa Davies, Is-adran Cynllunio
John Flack, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
Rachel Solomon-Williams, Tîm y Mesur Newid yn yr Hinsawdd

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Karen Sinclair.

1.2 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr gan y Pwyllgor Deisebau yn cyfeirio deiseb yn galw am wahardd bagiau plastig yng Nghymru i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gynhyrchu papur cwmpasu ar y ddeiseb.

### Eitem 2: Ymchwiliad i ostwng carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar ostwng carbon gan drafnidiaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a'i swyddogion, Robin Shaw a Martin Stevenson, i'r cyfarfod, Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gyflwyno'i bapur. Bu'r Aelodau yn holi'r tystion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth ar y pwysoliad a roddwyd i effeithiau carbon o fewn y Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth yng Nghymru a chymhariaeth o amcangyfrifon o arbedion carbon o'r gweithredu arfaethedig oedd ym mhapur y Gweinidog yn erbyn amcangyfrif o'r twf mewn traffig oedd yn cael ei ragweld.

2.3 Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau ar eco-yrru, y seilwaith rheilffyrdd, atebion oedd yn ymateb i'r galw o ran trafnidiaeth, a'r effeithiau ar dwristiaeth.

### Eitem 3: Ymchwiliad i ostwng carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar ostwng carbon yn ein cartrefi (Deddf Arbed Ynni yn y Cartref)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Davidson AM, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a'i swyddogion, Claire Bennett a Julia Williams, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Gweinidog i gyflwyno'i phapur. Holwyd y tystion gan yr Aelodau.

3.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clercod ddosbarthu i'r Aelodau a'r Gweinidog gopi o'r llythyr yn gwahodd y Gweinidog i fynychu'r

sesiwn dystiolaeth, er mwyn eglurhad.

### Egwyl

### Eitem 4: Mesur Cynllunio'r DU: goblygiadau ar gyfer Cymru

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Teresa Davies, Ron Loveland a John Flack, a oedd wedi ymuno â Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar gyfer Eitem 4. Gwahoddwyd y Gweinidog i gyflwyno'i phapur. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiadau rheolaidd i Aelodau ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r Mesur Cynllunio, wrth iddo wneud cynnydd trwy'r broses Seneddol.

### Eitem 5: Mesur Newid yn yr Hinsawdd y DU: goblygiadau ar gyfer Cymru

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Rachel Solomon-Williams o Dîm Mesur Newid yn yr Hinsawdd y DU a oedd wedi ymuno â Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Claire Bennett ar gyfer Eitem 5. Gwahoddwyd y Gweinidog i gyflwyno'i phapur. Holwyd y tystion gan yr Aelodau.

5.2 Gofynnodd yr Aelodau am nodyn ar y dystiolaeth oedd wedi peri bod Llywodraeth yr Alban wedi cynnwys targed o 80% ar gyfer gostyngiadau mewn allyriadau carbon erbyn 2050 o fewn Mesur Newid yn yr Hinsawdd yr Alban.